**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2 Mai 2014

Annwyl Brif Weinidog

**Ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae'r Pwyllgor wedi dechrau casglu tystiolaeth fel rhan o'i ymchwiliad i anghymhwyso person rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth gychwynnol gyda'r Comisiwn Etholiadol a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol, daeth yn amlwg nad oedd y rhesymeg dros gynnwys sefydliadau yn yr Atodlen i *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso)* 2010 yn glir.

Byddai'r Pwyllgor, felly, yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth am y rhesymeg dros gynnwys sefydliadau yn yr Atodlen, gan gynnwys manylion unrhyw feini prawf a ddefnyddiwyd a sut y cawsant eu dewis.

Byddwn yn ddiolchgar i dderbyn y wybodaeth hon erbyn 22 Mai er mwyn ein galluogi i ystyried eich ymateb a chymryd tystiolaeth bellach er mwyn gallu cwblhau adroddiad erbyn diwedd tymor yr haf.

Yn gywir

**David Melding AC**
**Cadeirydd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8019
E-bost / Email: ruth.hatton@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh